



The Owner / Occupier

Please Ask For/Gofynnwch Am: Andrew McGowan **Tel/ Ffon** 01443 425001
My Ref/Fy Nghyf: IF005 **Your Ref/Eich Cyf:** **Date/Dyddiad:** 4 November 2016

Dear Sir/ Madam,

PROPOSED ROAD SAFETY SCHEME - VARIOUS ROADS, TRALLWN

In response to concerns raised by the community over a number of years, the Council has developed draft proposals to introduce road safety measures throughout Trallwn. The draft proposals include the following:

- The provision of a 20mph speed limit
- Provision of traffic calming features
- Remodelling of parking at Central Square
- Improvements to the junctions at Middle Street/Ralph St and Ralph St/Parade.

The draft proposals have been designed in order to create a low speed environment within which the community can safely travel regardless of whether you wish to walk, cycle, drive or use public transport.

The Council is writing to all affected residents to advise of the proposed changes and provide the opportunity for residents to submit their observations and or make comment.

Details of the changes that are proposed in the vicinity of your property are shown on the attached drawing G-0-8. However, due to the scale of the improvements you may also wish to visit www.rctcbc.gov.uk/traffic where you will be able to view drawing G-0-7 which shows proposals for the rest of Trallwn.

I shall be pleased to receive your observations on these proposals. For your convenience, a pro forma and postage paid addressed envelope is enclosed. Alternatively you may wish to respond by e-mail to trafficservices@rctcbc.gov.uk Responses should be returned with your observations by 25th November 2016. If I do not hear from you by that date, I shall assume that you have no comment to make on the proposals.

Your comments are important to us and will help the Council in its decision making process. Any comments received will help us decide whether to make changes to the proposals and all observations relating to the scheme will be taken into consideration, however the Council will make no formal response to your comments at this stage.

I trust the above is of assistance.

Yours faithfully

Andrew McGowan
Senior Engineer, Traffic Management



Y Perchennog/Meddiannydd

Gofynnwch am/Please Ask For: Andrew McGowan

Ffôn/Tel 01443 425001

Fy Nghyf/My Ref: IF005

Eich Cyf/Your Ref:

Dyddiad/Date: 4 Tachwedd 2016

Annwyl Syr/Fadam,

CYNLLUN DIOGELWCH Y Ffordd Arfaethedig - Ffyrdd Amrywiol, Trallwng

Mewn ymateb i bryderon y gymuned dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi datblygu cynlluniau arfaethedig i gyflwyno mesurau diogelwch y ffordd ledled Trallwng. Mae'r cynllun yn cynnwys y cynigion yma:

- Cyfyngiad cyflymder 20mya
- Dulliau tawelu traffig
- Ailfodelu parcio yn Central Square
- Gwella cyffordd Middle Street/Ralph Street a Ralph Street/Parade.

Lluniwyd y cynlluniau er mwyn creu amgylchedd cyflymder isel, lle bydd y gymuned yn gallu teithio'n ddiogel naill ai drwy gerdded, beicio, gyrru neu drwy ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus.

Mae'r Cyngor yn ysgrifennu at drigolion perthnasol i roi gwybod iddyn nhw am y cynlluniau ac i roi cyfle i drigolion ddweud eu dweud.

Mae manylion y newidiadau arfaethedig, sy'n agos i'ch cartref, wedi'u dangos ar lun G-0-8. Serch hynny, oherwydd maint y gwelliannau efallai yr hoffech fynd i www.rctcbc.gov.uk/traffig ac edrych ar lun G-0-7 sy'n dangos y cynlluniau ar gyfer gweddill Trallwng.

Hoffwn i gael eich sylwadau ynglŷn â'r cynigion yma. Amgaeaf ffurflen ateb ynghyd ag amlen barod er hwylustod i chi. Fel arall, efallai hoffech chi ymateb drwy anfon neges ebost: gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk Anfonwch eich sylwadau aton ni erbyn 25 Tachwedd 2016. Os na fydda i wedi clywed oddi wrthoch chi erbyn hynny, bydda i'n ei chymryd hi'n ganiataol nad ydych chi'n gwrthwynebu'r cynigion.

Mae'ch sylwadau chi'n bwysig i ni a byddan nhw o gymorth i'r Cyngor yn ystod y broses o ddod i benderfyniad. Bydd unrhyw sylwadau y byddwn ni'n eu derbyn yn ein helpu ni i benderfynu a fydd eisiau gwneud unrhyw newidiadau i'r cynigion. Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i'r holl sylwadau ynglŷn â'r cynllun, ond fydd dim ymateb ffurfiol iddyn nhw yn ystod y cyfnod yma.

Hyderaf fod yr uchod o gymorth i chi.

Yn gywir

Andrew McGowan
Uwch Beiriannydd, Materion Rheoli Traffig

Chris Lee C.P.E.A.

Group Director, Corporate and Frontline Services | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-flaen

